
# DIOFAL NEU DI-HID?

## Y MODD MAE YSGOLION FFYDD YNG NGHYMRU YN TROI PLANT Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL I FFWRDD



Wales Humanists
Dyneiddwyr Cymru




**Paratowyd yr adroddiad gan:**
Robert Cann, Ameen Hojabr, a Ruth Wareham

**Cyfieithwyd yr adroddiad gan:**
Androw Bennett

**Cynlluniwyd yr adroddiad gan:**
Laura Reid

# CYNNWYS

**Crynodeb gweithredol** 4

**Cyd-destun** 7

- Plant yng Nghymru â phrofiad o ofal 7
- Dewis ar sail crefydd 10
- Polisïau mynediad 11

**Arolwg** 13

**Canfyddiadau** 15

- Anffafriaeth llawn yn erbyn anffafriaeth rhannol 20
- Goblygiadau mynediadau plant â phrofiad o ofal 22

**Casgliad** 22

**Atodiad 1: Canran o ysgolion ffydd fesul rhanbarth sy'n gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal** 25

**Atodiad 2: Data llawn – ysgolion cynradd** 26

**Atodiad 3: Data llawn – ysgolion uwchradd** 27

**Atodiad 4: Data llawn - holl ysgolion** 28

## BETH YDYM YN GOLYGU WRTH 'PLANT Â PHROFIAD O OFAL'?

Rydym yn defnyddio'r term 'plant â phrofiad o ofal' i gyfeirio at blant sydd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal neu sy'n cael eu categoreiddio fel 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae rheidrwydd yng Nghymru ar holl ysgolion a ariannir gan y Côd Mynediad Ysgolion[1] i flaenoriaethu mynediad ar gyfer plant â phrofiad o ofal (a adnabyddir yn ffurfiol fel 'plant sy'n derbyn gofal' neu wedi derbyn gofal') yn eu trefniadau mynediad. Mae'r gofyn hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o blant sy'n derbyn, neu wedi derbyn, gofal yn cychwyn o safbwynt anfanteisiol sylweddol, sy'n gosod dyletswydd ar ysgolion a sefydliadau cyhoeddus eraill i hybu eu haddysg a'u datblygiad gymaint â phosib.

Mae ysgolion ffydd, fodd bynnag, wedi eu hesgusodi o'r angen i flaenoriaethu mynediad i'r plant hyn. Yn fwy penodol, gall ysgolion ffydd flaenoriaethu plant o gefndiroedd sy'n gweddu wrth ffydd yr ysgol ond sydd heb dderbyn gofal, ar draul plant sydd wedi derbyn gofal â'u cefndiroedd nad sy'n gweddu wrth ffydd yr ysgol. Gosodir hyn yn adrannau 2.31 a 2.32 o'r Côd Mynediad Ysgolion fel a ganlyn:

> **2.31 …Yn amodol ar yr eithriadau ym mharagraffau 2.32 i 2.34, rhaid i bob awdurdod derbyn roi'r flaenoriaeth uchaf yn eu meini prawf gor-alw i blant sy'n derbyn gofal, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009 a phlant a oedd yn arfer derbyn gofal fel sy'n ofynnol gan y Côd hwn.**
>
> **2.32 Gall awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sydd wedi'u dynodi â chymeriad crefyddol (ysgolion ffydd) roi blaenoriaeth gyntaf i'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r holl blant oedd yn arfer derbyn gofal, boed hwy o'r ffydd honno ai peidio, ond rhaid rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'u ffydd uwchlaw unrhyw blant eraill o'u ffydd. Os byddant yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal sy'n rhan o'r ffydd honno, yna mae'n rhaid iddynt roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal nad ydynt yn rhan o'r ffydd honno nag i blant eraill nad ydynt yn rhan o'r ffydd honno.[2]**

I aralleirio, mae gan ysgolion ffydd y'u hariannir gan y llywodraeth, yn wahanol i'r mwyafrif llethol o ysgolion eraill, ddewis ynglŷn â naill ai rhoi blaenoriaeth yn eu polisïau mynediad i'r holl blant hynod fregus hyn neu ond i'r rheiny sydd â'u cefndiroedd yn cydweddu â'u ffydd penodol.

**1** Llywodraeth Cymru, Côd Mynediad Ysgolion (Gorffennaf 2013) tud.13

**2** Ibid

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio i ba raddfa y mae ysgolion sy'n meddu ar gymeriad crefyddol yng Nghymru yn gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal yn eu polisïau mynediad.

Dydy'r polisïau y'u hamlinellir uchod ddim yn unigryw i Gymru. Fel mae adroddiad cynharach gan Dyneiddwyr y DU yn dangos, mae 41% o ysgolion uwchradd gwladol yn Lloegr sy'n meddu ar gymeriad crefyddol yn gwahaniaethu yn y modd hyn yn erbyn plant â phrofiad o ofal (yn cynnwyd 76% o ysgolion uwchradd Catholig a 100% o ysgolion Iddewig a ariennir gan y wladwriaeth).[3] Yn wahanol i Loegr, fodd bynnag - lle gweinyddir ysgolion gan y mwyafrif o'r prif enwadau crefyddol – dim ond dau grŵp crefyddol sy'n gyfrifol am weinyddu ysgolion gwladol yng Nghymru. Yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig yw rhain, ac mae'r cyfran o ysgolion sy'n gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal yn wahanol rhwng y ddau enwad. Mae ein casgliadau yn dangos tra bod ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ar y cyfan yn gynhwysol a theg yn eu polisïau ar blant â phrofiad o ofal beth bynnag yw eu cefndir crefyddol, mae ysgolion Catholig yn gyson yn ffafrio holl ddarpar-ddisgyblion o gefndiroedd sy'n cydweddu â'u ffydd eu hunain, er anfantais i'r plant â phrofiad o ofal o gefndiroedd nad sydd yn cydweddu â'u ffydd.

## MAE EIN HYMCHWIL YN DANGOS BOD:

- **16% o holl ysgolion gwladol â chymeriad crefyddol yn gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â ffydd yr ysgol.**
- **Cyfanswm o 43% o ysgolion Catholig ac 1% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â ffydd yr ysgol.**
- **Ar lefel gynradd, mae 50% o ysgolion Catholig ac 1% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â ffydd yr ysgol.**
- **Ar lefel uwchradd, mae 13% o ysgolion Catholig yn gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd sydd ddim cydweddu â ffydd yr ysgol, ond nid oes unrhyw ysgol yr Eglwys Yng Nghymru yn gwneud hyn.**

Mae'r rhifau hyn yn cynyddu pan wahaniaethir rhwng 'anffafriaeth lawn' (polisïau sy'n arwain at flaenoriaethu holl blant o gefndiroedd ffydd sy'n cydweddu â'r ysgol yn hytrach na phlant â phrofiad o ofal o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â'r ysgol) ac 'anffafriaeth rannol' (polisïau sydd ond yn blaenoriaethu plant â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd ffydd sy'n cydweddu â'r ysgol yn hytrach na phlant â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â'r ysgol).

**3** Humanists UK, *Careless or Uncaring? How Faith Schools Turn Away Children Who Are or Were in Care* (2021) *https://humanists.uk/wp-content/uploads/Humanists_FaithSchools_V2_web.pdf* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].

- **Mae 31% o ysgolion Catholig a 7% ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn arddel polisïau sy'n golygu anffafriaeth rannol.**
- **Ar lefel gynradd, mae 33% o ysgolion Catholig a 7% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn arddel polisïau rhannol wahaniaethol.**
- **Ar lefel uwchradd, mae 25% o ysgolion Catholig yn arddel polisïau rhannol wahaniaethol. Does dim ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn gwahaniaethu yn y modd hwn.**

Pan gymerir pob math o wahaniaethu i ystyriaeth

- **Mae 74% o ysgolion Catholig ac 8% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn gwahaniaethu yn erbyn plant â phrofiad o ofal o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â ffydd yr ysgol mewn rhyw fodd.**

## ARGYMHELLIAD:

Rydym yn argymell y dylid newid y gyfraith i sicrhau bod pob plentyn â phrofiad o ofal yn derbyn triniaeth gyfartal o ran polisïau mynediad, ac yn medru sicrhau'r lle gorau sydd ar gael beth bynnag yw eu ffydd neu eu cefndir cred.

# CYD-DESTUN

## PLANT YNG NGHYMRU Â PHROFIAD O OFAL

Roedd 7,080 plentyn yn derbyn gofal yng Nghymru yn 2022[4]. Mae'r rhif hwn bron wedi dyblu dros y ddau ddegawd diwethaf.[5] Cymru sy'n meddu ar y gyfran uchaf ond un o blant mewn gofal yn y DU gyda 112 plentyn yn derbyn gofal o 10,000 o'r boblogaeth dan 18 mlwydd oed o gymharu â 70 y 10,000 yn Lloegr ac 82 y 10,000 yng Ngogledd Iwerddon.[6] Dim ond yr Alban sydd yn meddu ar gyfran uwch, sef 124 y 10,000.[7]

Mae plant sydd yn derbyn gofal yn cynrychioli rhai o'r bobl mwyaf bregus mewn cymdeithas. Gosodwyd 62% o blant oedd yn dechrau derbyn gofal yn 2022 mewn gofal oherwydd eu bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae 20% ychwanegol yn derbyn gofal o ganlyniad i gamweithrediad teuluol neu deulu dan bwysau enbyd (13% yn y ddau achos) gydag achosion ychwanegol yn cael eu rhestru fel rhieni absennol (5%), ymddygiad cymdeithasol annerbyniol (3%), anabledd (2%), a salwch neu anabledd rhieni (2%).[8] O dderbyn yr anfanteision hyn, mae canlyniadau addysgol plant sydd mewn gofal neu wedi bod mewn gofal yn draddodiadol is na'r cyfradd cenedlaethol. Yn 2019, dim ond 17% o blant mewn gofal enillodd 5 TGAU ar lefel A* yn cynnwys mathemateg a Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf o gymharu â 28% o blant sy'n gymwys i dderbyn prydau bwyd ysgol am ddim a 54% o holl blant eraill.[9] Er nad yw Llywodraeth Cymru yn ymddangos ei fod yn cyhoeddi gwybodaeth benodol ar gyfraddau gwaharddiad ymhlith plant sydd wedi derbyn gofal, awgryma data o Loegr fod y cyfraddau hyn yn tueddu i fod yn uwch na disgyblion eraill. Yn ôl Ofsted, mae plant mewn gofal yn Lloegr yn wyth gwaith mwy tebygol o gael eu gwahardd na'u cyfoedion.[10]

---

**4** Llywodraeth Cymru, 'Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022' (Tachwedd 2022) *https://www.llyw.cymru/plant-syn-derbyn-gofal-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html* [gwelwyd 9 Medi 2024]

**5** StatsCymru, 'Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran' *https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].

**6** *https://www.gov.scot/publications/childrens-social-work-statistics-scotland-2021-22/pages/looked-after-children/* [gwelwyd 5 Mehefin 2023]

**7** Ibid.

**8** *https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenstartingtobelookedafterduringyearto31march-by-localauthority-needforcare*

**9** Llywodraeth Cymru/Ymchwil Seneddol, *Plant sydd â phrofiad o ofal: Briff ystadegol* (Ionawr 2023) tud.16 *https://research.senedd.wales/media/bkditkus/23-01-plant sydd â phrofiad gofal briff ystadegol-web.pdf* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].

**10** Ofsted, *Looked after children – good practice in schools* (May 2008) p.6 *https://dera.ioe.ac.uk/8180/1/Looked-1.pdf* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].



Yn y cyflwyniad i *Making a Difference*, cyfarwyddyd statudol sy'n gosod cyfrifoldebau'r 'person dynodedig dros blant mewn gofal yn ysgolion', mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw 'canlyniadau addysgol plant mewn gofal yn cymharu'n ffafriol yn aml gyda plant a phobl ifanc eraill a bod 'llawer o'r dysgwyr hyn wedi dioddef dysgu amharedig ac o bosib wedi colli cyfnodau estynedig o addysg.'[11] Mae hefyd yn cydnabod fod y 'bylchau yn eu haddysg – ac mewn llawer o achosion effaith emosiynol eu profiadau – yn debygol o fod yn rhwystrau sylweddol i'w cynnydd.'[12]

Mae plant o grwpiau difantais traddodiadol eraill hefyd yn fwy tebygol o fod mewn gofal na phlant eraill. Mae 90% o blant sydd wedi derbyn gofal yn wyn (o gymharu â 93.8% o boblogaeth Cymru gyfan). Mae 1.5% yn ddu (o gymharu â 0.9% o'r boblogaeth gyfan). Mae 2% yn Asiaidd (o gymharu â 2.9% o'r boblogaeth). Mae 4% yn gymysg a 2% o gefndiroedd ethnig eraill (o gymharu ag 1.6% a 0.9% o'r boblogaeth gyfan yn ôl eu

**11** Llywodraeth Cymru: *Gwneud gwahaniaeth : Plant sydd â phrofiad o ofal: canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion* (2017) tud. 2 *https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/gwneud-gwahaniaeth-canllaw-i-r-person-dynodedig-ar-gyfer-plant-sy-n-derbyn-gofal-mewn-ysgolion.pdf*. [gwelwyd 15 Mehefin 2023].

**12** Ibid.

trefn).[13 14] Golyga hyn fod plant yn ddwy ran o dair yn fwy tebygol o fod mewn gofal na gweddill y boblogaeth ac mae plant o gefndiroedd cymysg neu gefndiroedd ethnig eraill eraill dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod mewn gofal. Roedd 2% ychwanegol o blant oedd mewn gofal ar 31 Mawrth 2022 yn geiswyr lloches digwmni,[15] yn arddangos ymhellach pa mor fregus y mae'r plant hyn yn debygol o fod.

Nid yw data Llywodraeth Cymru wedi ei ddosrannu wrth ethnigrwydd y plentyn, ond dengys ystadegau o Loegr fod plant du a phlant gydag ethnigrwydd cymysg ill dau yn fwy tebygol o fod mewn gofal ac yn llai tebygol o gael eu mabwysiadu o gymharu gyda'u cyfran o'r boblogaeth sydd dan 18 mlwydd oed.[16] Felly hefyd, mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant ag anabledd, sy'n fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth ac esgeulustod na phlant heb anabledd,[17] yn fwy tebygol o gael mynediad i'r gyfundrefn gofal.[18] Yn ôl Llywodraeth Cymru, ym mis Mawrth 2022, roedd 7% o'r plant mewn gofal yn anabl o gymharu â 4% o'r boblogaeth gyffredinol dan 16.[19 20]

Er mwyn hyrwyddo eu gorchest addysgol, mae'n hanfodol fod addysg plant sydd yn derbyn gofal yn cael ei flaenoriaethu, yn arbennig o ran cael mynediad i ysgol addas. Mae gan blant sydd wedi derbyn gofal anghenion amrywiol sy'n aml yn rhai cymhleth ac heb eu darparu'n effeithiol. Mae'r adroddiad hwn, fodd bynnag, yn canolbwyntio ar sicrhau fod y fath blant yn gallu cael mynediad breiniol i holl ysgolion gwladol. Mae hyn oherwydd ein harbenigedd hirdymor o ran trefniadau mynediad i ysgolion ac oherwydd fod yna gonsensws eang yn bodoli'n barod y dylai plant sydd wedi derbyn gofal fwynhau'r fantais hon.

Er mwyn hyrwyddo'r broses o ganfod lle mewn ysgol yn y modd mwyaf amserol â phosib, mae galw gyffredinol yn y Côd Mynediad Ysgolion ar ysgolion Cymreig i flaenoriaethu

---

**13** ONS, 'Grŵp Ethnig , Lloegr a Chymru: Cyfrifiad 2021' (2022) *https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/bulletins/ethnicgroupenglandandwales/census2021* [gwelwyd 12 Mehefin 2023].

**14** Stats Cymru, Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol ac ethnigrwydd' (2023) *https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-ethnicity* [gwelwyd 12 Mehefin 2023].

**15** Llywodraeth Cymru 'Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022' (Tachwedd 2022) *https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/11/2/1669109416/children-looked-after-local-authorities-april-2021-march-2022.pdf* [gwelwyd 28 Gorffennaf 2023].

**16** Department for Education, 'Adopted and looked-after children – GOV.UK Ethnicity facts and figures' (2 November 2020) *https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/health/social-care/adopted-and-looked-after-children/latest* [gwelwyd 2 Mehefin 2023].

**17** L. Hill, C. Baker, B Kelly & S Dowling, 'Being counted? Examining the prevalence of looked-after disabled children and young people across the UK'. *Child and Family Social Work*, (2015), 22(1), 287.

**18** Claire Baker, 'Permanence and stability for disabled looked after children' (31 May 2011) *https://www.iriss.org.uk/resources/insights/permanence-stability-disabled-looked-after-children* [gwelwyd 2 Mehefin 2023].

**19** Welsh Government, *Children looked after by local authorities*: April 2021 to March 2022 (2022) *https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/11/2/1669109416/children-looked-after-local-authorities-april-2021-march-2022.pdf* [gwelwyd 12 Mehefin 2023].

**20** Mae'r data poblogaeth yn cael ei dynnu o Gyfrifiad 2011. Mae'r gyfran o blant anabl a phobl ifanc (dan 15 mlwydd oed) recordiwyd yng Nghyfrifiad 2021 yn 5.6% (codi i 7.2% ymhlith rheiny sy'n 19 neu iau). Gweler ONS, 'Disability by age, sex and deprivation, England and Wales Census 2021' (2023), tud.5-6, ffigwr 5 *https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilitybyagesexanddeprivationenglandandwales/census2021* [gwelwyd 15 Mehefin 2023].

plant sydd wedi derbyn gofal yn eu polisïau mynediad.[21] Ond, er y gofyn hwn, gall ysgolion ffydd barhau i flaenoriaethu nid yn unig plant sy'n meddu ar gefndiroedd sy'n cydweddu â ffydd yr ysgol ond holl blant eraill â'u teuluoedd sy'n arddel y ffydd hwnnw dros blant sydd wedi derbyn gofal o gefndiroedd ffydd arall neu o gefndiroedd ddigrefydd.

Ni ddylai fod yn fawr o bwys i ba ffydd, os unrhyw ffydd, y mae teuluoedd plant sydd wedi derbyn gofal yn perthyn iddo. Dylai'r holl fath blant feddu ar yr hawl i fynychu'r ysgol fyddai'n fwyaf addas ar eu cyfer a, fel yr adlewyrchir i raddau helaeth ym mholisïau'r llywodraeth yn y maes hwn, dylent dderbyn blaenoriaeth uwch o ran mynediadau na phlentyn sydd heb ddioddef yr un anfanteision ond sydd â theulu sy'n digwydd bod yn rhannu'r un ffydd â'r ysgol.

## DEWIS CREFYDDOL

Gall ysgolion gwladol yng Nghymru gael eu dynodi'n gyfreithiol o fod o gymeriad crefyddol.[22] Weithiau gelwir ysgolion a ddynodwyd felly yn 'ysgolion enwadol' ond cyfeirir atynt yn fwy cyffredinol fel 'ysgolion ffydd'. Tra does dim hawl gan y mwyafrif o ysgolion i wahaniaethu ar sail crefydd neu gredo, caniateir ysgolion ffydd i wneud hynny mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys i bwy maent yn caniatáu mynediad.

Mae hyn oherwydd eithriad yng nghyfraith cydraddoldeb. Yn gyffredinol, mynega hyn 'rhaid i ysgolion beidio gwahaniaethu yn erbyn person – (a) yn y trefniadau y mae yn eu gwneud wrth benderfynu i bwy y cynigir mynediad fel disgybl: (b) o ran y termau y mae'n cynnig mynediad i'r person fel disgybl: (c) trwy beidio caniatáu mynediad fel disgybl.'[23] Fodd bynnag, mae'n dweud ymhellach 'nad yw hyn yn gweithredu yng nghyswllt... ysgol a ddynodir gyda chymeriad crefyddol'.[24]

Ar hyn o bryd mae yna 224 o ysgolion a ariannir gan y wladwriaeth yng Nghymru a ddynodir fel rhai â chymeriad crefyddol.[25] Mae hyn yn 16% o holl ysgolion prif ffrwd gwladol. Mae'r mwyafrif o rhain yn ysgolion cynradd, gyda 203 cynradd wedi eu dynodi â chymeriad crefyddol o gymharu gyda 21 uwchradd.[26]

Yr Eglwys yng Nghymru yw'r darparwr mwyaf o addysg ffydd cynradd, sef 68% o ysgolion enwadol cynradd. Yr Eglwys Gatholig, fodd bynnag, yw'r darparwr mwyaf o addysg ffydd uwchradd, gydag ysgolion Catholig yn cynrychioli 76% o ysgolion ffydd ar lefel uwchradd.

**21** Llywodraeth Cymru, *Côd mynediadau ysgolion* (Gorffennaf 2013) tud. 13.

**22** School Standards and Framework Act 1998, Section 68A *https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/section/68A* [gwelwyd 19 Mehefin 2023].

**23** Equality Act 2010, Part 6, Chapter 1, Section 85 (1) *https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/85* [gwelwyd 22 Mehefin 2023].

**24** Equality Act 2010, schedule 11, part 2, paragraph 5 *https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/11/paragraph/5* [gwelwyd 22 Mehefin 2023].

**25** Llywodraeth Cymru, 'Rhestr gyfredol o ysgolion' *https://www.gov.wales/address-list-schools* [gwelwyd 19 Mehefin 2023].

**26** Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae data sy'n cyfeirio at ysgolion uwchradd yn cynnwys ysgolion canol.

Er bod y nifer a'r gyfran o ysgolion ffydd gryn dipyn yn llai yng Nghymru nag yn Lloegr (lle mae ysgolion â chymeriad crefyddol yn ffurfio 34% o ysgolion gwladol[27]), lleolir llawer o ysgolion ffydd Cymreig mewn ardaloedd gwledig a hynny'n golygu efallai mai dyna'r unig ddewis ar gyfer teuluoedd.

Fel y crybwyllwyd uchod mae'r Côd Mynediad Ysgolion yn caniatáu ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i wahaniaethu er budd plant o gefndiroedd sy'n cydweddu â'u ffydd. Mae hyn yn wir nid yn unig o ran plant sydd wedi derbyn gofal, ond eu mynediadau ehangach, gyda'r mwyafrif o ysgolion ffydd yng Nghymru yn gwneud defnydd o'r meini prawf crefyddol wrth bennu mynediadau.[28]

Mae gwledydd sy'n caniatáu gwahaniaethu crefyddol ym mynediadau ysgolion gwladol, fel y gwna'r Deyrnas Gyfunol, yn anarferol iawn. Gwelodd ymchwil a gynhaliwyd gan yr OECD yn 2012 fod, heblaw am y Deyrnas Gyfunol, dim ond tair gwlad arall sy'n caniatáu gwahaniaethu ar sail crefyddol ym mynediadau ysgolion gwladol.[29] Estonia, Israel a Gweriniaeth Iwerddon yw rhain. Yn 2018, fodd bynnag, diddymodd yr Iwerddon y gyfundrefn a elwir yn 'atalfa bedydd' i ddileu'r fath wahaniaethu yn ysgolion cynradd Catholig – mewn geiriau eraill, y mwyafrif llethol o ysgolion lle roedd dewis ar sail crefydd yn broblem.[30]

## POLISÏAU MYNEDIADAU

Fel y crybwyllwyd uchod, gorfodir y mwyafrif o ysgolion gwladol i ddilyn y Côd Mynediad Ysgolion i flaenoriaethu pob plentyn sydd â phrofiad o ofal dros yr holl ymgeiswyr eraill, gyda threfniadau mynediad yn cael eu gwneud gan eu hawdurdodau lleol.

Ymddengys polisïau mynediadau ysgolion ffydd sy'n gwahaniaethu yn erbyn plant sydd â phrofiad o ofal yn wahanol iawn. Er enghraifft, ym mholisi clwstwr mynediadau 2022 ar gyfer yr holl ysgolion Catholig yng Nghasnewydd, rhestrwyd y meini prawf gordanysgrifio fel y canlynol:

1. **Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig ac sy'n derbyn gofal – neu plant wedi derbyn gofal cyn hyn.**

**27** GOV.UK, 'Schools, pupils and their characteristics' (June 2023) *https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/school-pupils-and-their-characteristics* [gwelwyd 22 Mehefin 2023].

**28** Ni chaniateir holl ysgolion ffydd i ddefnyddio meini prawf mynediadau crefyddol. Mae rhai a adwaenir fel Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn cael eu mynediadau wedi eu pennu gan yr awdurdod lleol, ac mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn eu gosod heb ddewis crefyddol – h.y. yn cydweddu ag ysgolion eraill yn yr ardal. Yn wir, dim ond tri awdurdod lleol (Sir Dinbych, Casnewydd a Chaerdydd) sy'n caniatáu dewis crefyddol yn eu Hysgolion Gwirfoddol a Reolir. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o ysgolion ffydd yng Nghymru yn Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir sy'n gosod eu polisïau mynediadau eu hunain. Maent felly yn gallu manteisio ar yr eithriad penodol o gyfraith cydraddoldeb i'w galluogi i ddewis ar sail crefydd.

**29** Pauline Musset, *School Choice and Equity: Current Policies in OECD Countries and a Literature Review*, 31 January 2012. *https://www.oecd-ilibrary.org/education/school-choice-and-equity_5k9fq23507vc-en* [gwelwyd 28 Gorffennaf 2023].

**30** Humanists UK, 'Ireland scraps religious selection in Catholic primary school admissions' (5 October 2018) *https://humanism.org.uk/2018/10/05/ireland-scraps-using-religion-as-a-selection-criteria-in-catholic-primary-schools/* [gwelwyd 25 Mehefin 2023].

2. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig ac sydd â brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol amser y mynediad.

3. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig.

4. Holl blant eraill sy'n derbyn gofal – neu plant o ffydd Gristnogol arall, ffydd anghristnogol neu dim ffydd.

5. Plant o enwadau Cristnogol eraill sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol amser y mynediad.

6. Plant o enwadau Cristnogol eraill sydd â rhieni sydd wedi dangos dymuniad am addysg Gatholig. Dylid cefnogi pob cais gan lythyr neu dystiolaeth o ymarfer addoli oddi wrth eu harweinydd crefyddol.

7. Plant o draddodiadau ffydd eraill sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol amser y mynediad.

8. Plant o draddodiadau ffydd eraill sydd â rhieni sydd wedi dangos dymuniad am addysg Gatholig. Dylid cefnogi pob cais gan lythyr neu dystiolaeth o ymarfer addoli oddi wrth eu harweinydd crefyddol.

9. Plant eraill sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol amser y mynediad sydd â rhieni sy'n dangos dymuniad am addysg Gatholig.

10. Plant eraill sydd â rhieni sy'n dangos dymuniad am addysg Gatholig.[31]

31 *Newport Roman Catholic Primary Schools Admissions Policy*, 2022-23, p. 8 *https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/stdavids-rcps/UploadedDocument/d6641bb9-1242-4a58-bc5c-a07419b86cd7/cluster-admissions-policy-2022-2023-1.docx*. [gwelwyd 22 Mehefin 2023].

# AROLWG

Mae'r adroddiad hwn yn dangos canlyniadau archwiliad o bolisïau mynediadau holl ysgolion enwadol cynradd ac uwchradd a ariannir gan y wladwriaeth yng Nghymru. Ymchwiliwyd i'r holl 224 ysgol. O rhain, mae 143 yn rhai'r Eglwys yng Nghymru, 80 yn Gatholig ac un yn Gatholig ac Anglicanaidd cymysg.

Er mwyn cyflawni' arolwg, archwiliwyd y polisi derbyniadau fwyaf eang oedd ar gael ar gyfer pob ysgol, sef, yn y mwyafrif o achosion, y polisi mynediad am y flwyddyn academaidd 2022-23.

Os nad oedd hwn ar gael, yna defnyddiwyd yr un diweddaraf ar ôl yr un hwn (fel arfer 2021-2022). Mae tywyslinellau statudol yn mandadu bod rhaid i'r polisïau hyn fod ar gael ym mhrosbectws pob ysgol a bod rhaid diweddaru rhain yn flynyddol.[32] Er hynny roedd y polisïau perthnasol yn anodd dod o hyd iddynt yn aml ar wefannau ysgolion ac, mewn rhai achosion, yn llwyr absennol. Lle roedd hyn yn bodoli, roedd hi'n bosib yn gyffredinol i ddod o hyd i'r polisi perthnasol trwy wefan yr awdurdod lleol, ond yn achos 7 ysgol ni allem asesu oherwydd polisïau coll neu anghyflawn.[33]

**Archwiliwyd un cwestiwn ymchwil:**

**Yn ei meini prawf gordanysgrifio, ydy'r ysgol yn blaenoriaethu ceisiadau plant o bob cefndir sydd â phrofiad o ofal neu dim ond y rhai sy'n cydweddu â chymeriad crefyddol dynodedig yr ysgol?**

**32** Circular 14/01: School Prospectuses – Guidance for Headteachers and Governing bodies, p. 23 *https://www.gov.wales/school-prospectuses-guidance-headteachers-and-governing-bodies*

**33** Roedd hwn yn cynnwys dwy ysgol sy'n ymddangos nad oes ganddynt wefannau.



Yn Lloegr, cynhaliwyd archwiliadau o'r math hwn i archwilio gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr digrefydd i ysgolion ffydd,[34] mesur polisïau mynediadau seiliedig ar ffydd,[35] a phynciau tebyg eraill.[36] Mae Dyneiddwyr y DU hefyd wedi cynnal ymchwil tebyg yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd yn Lloegr.[37] Fodd bynnag, does dim archwiliad erioed o'r blaen wedi ei gyhoeddi sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar y modd y mae plant sydd â phrofiad o ofal yn cael eu trin ym mholisïau mynediadau ysgolion gwladol Cymreig.

**34** Humanists UK, Non-religious need not apply (May 2018) *https://humanism.org.uk/wp-content/uploads/2018-05-10-LW-FINAL-Non-religious-discrimination.pdf* [gwelwyd 14 Medi 2023].

**35** Humanists UK, No Room at the Inn (December 2017) *https://humanism.org.uk/wp-content/uploads/2017-12-18-LW-v6-FINAL-No-Room-At-The-Inn.pdf* [gwelwyd 14 Medi 2023].

**36** Fair Admissions Campaign, An Unholy Mess: How virtually all religiously selective state schools in England are breaking the law (October 2015) *https://fairadmissions.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/An-Unholy-Mess.pdf* [gwelwyd 14 Medi 2023].

**37** Humanists UK, Careless or Uncaring? How Faith Schools Turn Away Children Who Are or Were in Care (2021) *https://humanists.uk/wp-content/uploads/Humanists_FaithSchools_V2_web.pdf* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].

# CASGLIADAU

Roedd canlyniadau'r archwiliad fel y canlynol:

**Holl ysgolion:**

| Math o ysgol ffydd | % sydd ddim yn rhoi blaenoriaeth cyntaf yn eu mynediadau i holl blant sydd â phrofiad o ofal |
|---|---|
| Catholig | 74% |
| Eglwys yng Nghymru | 8% |
| Catholig ac Anglicanaidd Cymysg | 0% |
| **Cyfanswm** | **32%** |

**Ysgolion cynradd:**

| Math o ysgol ffydd | % sydd ddim yn rhoi blaenoriaeth cyntaf yn eu mynediadau i holl blant sydd â phrofiad o ofal |
|---|---|
| Catholig | 83% |
| Eglwys yng Nghymru | 9% |
| **Cyfanswm** | **32%** |

**Ysgolion Uwchradd:**

| Math o ysgol ffydd | % sydd ddim yn rhoi blaenoriaeth cyntaf yn eu mynediadau i holl blant sydd â phrofiad o ofal |
|---|---|
| Catholig | 38% |
| Eglwys yng Nghymru | 0% |
| Catholig ac Anglicanaidd Cymysg | 0% |
| **Cyfanswm** | **29%** |

**32%** **MAE 32% O YSGOLION FFYDD YN METHU BLAENORIAETHU'N GYFARTAL POB PLENTYN SYDD Â PHROFIAD O OFAL.**

**74%** **MAE 74% O YSGOLION CATHOLIG (83% AR LEFEL GYNRADD) YN GWAHANIAETHU YN ERBYN PLANT SYDD Â PHROFIAD O OFAL O GEFNDIROEDD SYDD DDIM YN CYDWEDDU Â FFYDD YR YSGOL.**

Mae'r ffaith fod bron tri chwarter o ysgolion Catholig yn gwahaniaethu yn erbyn plant sydd â phrofiad o ofal (a chyfran hyd yn oed yn uwch ar lefel gynradd) yn annerbyniol ond ddim yn annisgwyl. O bob ffydd sy'n gweinyddu ysgolion ar draws y DU, ysgolion Catholig yw'r mwyaf llym yn gorfodi meini prawf mynediadau ar sail ffydd. Daeth adroddiad cynharach gan Humanists UK i'r casgliad fod 'bron pob ysgol Gatholig wladol yn Lloegr yn gwahaniaethu wrth ddosrannu eu holl leoedd ar sail dewis crefyddol' pan fod gordanysgrifio digonol.[38] Gwelodd yr archwiliad presennol yr un sefyllfa yng Nghymru. Mae ysgolion Catholig yn ymroi i dderbyn plant o gefndiroedd Catholig, ac i raddau helaeth yn gwahardd pawb arall os nad oes lleoedd yn weddill unwaith fod yr holl fath blant wedi eu derbyn.[39]

Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod yr Eglwys Gatholig, fel y mwyafrif o grwpiau ffydd sy'n gweinyddu ysgolion ar draws y DU, yn honni eu bod yn rhedeg eu hysgolion nid yn unig ar sail delfrydau crefyddol ond hefyd gwerthoedd ehangach fel cynhwysiad, amrywiaeth a thegwch. Gwerthoedd fyddai'n awgrymu polisïau goleuedig agored, yn arbennig o ran plant sydd wedi derbyn gofal.

---

**37** Humanists UK, No Room at the Inn, (December 2017) *https://humanists.uk/wp-content/uploads/2017-12-18-LW-v6-FINAL-No-Room-At-The-Inn.pdf* [gwelwyd 27 Hydref 2024].

**38** I'w roi mewn modd arall, ymddengys bod ysgolion Catholig yn hapus i dderbyn plant o gefndiroedd eraill pan fod hynny yn eu helpu i osgoi cael eu cau oherwydd diffyg galw ond nid fel arall. Nid dyma oedd y sefyllfa bob amser. Mewn dadl Seneddol yn trafod yr 1988 Education Reform Act, ceisiodd yr Ysgrifennydd Addysg ar y pryd, Kenneth Baker, leddfu ofnau arweinwyr eglwysig na fyddent bellach yn gallu cyfyngu'r nifer o ddisgyblion Amhabaidd fyddai'n cael mynediad i ysgol Gatholig... hyd yn oed lle mae gofod ar ôl yn yr ysgol oherwydd byddai eu mynediad yn gwanhau yr ethos Catholig hanfodol' trwy gynnig y gallai awdurdodau lleol wneud y fath gytundebau gyda llywodraethwyr ysgolion. (Kenneth Baker, HC Deb, 23 March 1988, c423) *https://www.theyworkforyou.com/debates/?id=1988-03-23a.398.3#g423.4* [gwelwyd 14 Medi2023]. Fodd bynnag, gan fod y Ddeddf hefyd yn gysylltiedig â chyllidebau ysgolion trwy'r nifer o ddisgyblion y'u derbynnir, dechreuodd ysgolion Catholig yn raddol 'gael eu hysgogi gan yr angen i oroesi ac ehangu yn hytrach nag...yr angen i ddiogelu cymeriad yr ysgol' (James Arthur, The ebbing tide: Policy and Principles of Catholic Education, Leominster; Gracewing, 1995). Erbyn y 2000au cynnar (yn dilyn cyflwyno'r Côd Mynediadau Ysgolion) ymddengys fod y Gwasanaeth Addysg Gatholig wedi bod yn fwy croesawgar o reoleiddiad mynediadau. (gw.e.e.Sselect Committee on Education and Skills Fourth Report, 2004 *https://publications.parliament.uk/pa/cm200304/cmselect/cmeduski/58/5805.htm#note41*[gwelwyd 14 Medi 2023] ond roedd yn parhau i amddiffyn yn gadarn mynediadau ar sail ffydd (Memorandwm gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Addysg Gatholig (SA 34) i Bwyllgor Dethol ar Addysg a Sgiliau, 17 Tachwedd 2003 *https://publications.parliament.uk/pa/cm200304/cmselect/cmeduski/58/3111707.htm#n6* [gwelwyd 14 Medi 2023].

Er enghraifft, dywedodd Paul Barber, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg Gatholig (CES), yn 2016 ei fod yn hapus 'i weld ysgolion Catholig yn gweithredu fel goleufa o amrywioldeb ac integreiddio ar hyd a lled y wlad.'[40] Mae'r hawlio hyn o ysgolion Catholig, ac ysgolion ffydd yn gyffredinol, fel lleoedd o integreiddio ac amrywioldeb beth bynnag fo'u cymeriad crefyddol dynodedig ar led ar draws y DU ac yn arddangos fel ei fod yn cynyddu wrth i ddewisiad crefyddol ddod yn fwy amhoblogaidd. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, bod rhai o'r ysgolion yng Nghymru yn llai argyhoeddedig gan y syniad. Er enghraifft, mae gwefan Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath yn datgan yn falch bod:

> **'Dydy ysgol Gatholig ddim byth ond yn ysgol ar gyfer rheiny sydd yn ei dewis. Mae ysgol Gatholig bob amser, yn y lle cyntaf, yn ysgol ar gyfer Gatholigion. Wrth gwrs, mae eraill sy'n ceisio am le yn yr ysgol yn derbyn croeso mawr cyn belled ag y mae lle yn caniatáu. Maent yn rhan gyflawn o gymuned yr ysgol ac yn cael eu trysori'n fawr.'[41]**

Mae awgrym yr ysgol eu bod yn 'trysori' plant sydd ddim yn Gatholigion ac sydd â phrofiad o ofal yn cael ei danseilio gan y ffaith eu bod yn eu gosod nhw ar ôl i'r holl blant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig, yn ddi-hid o'r ffaith eu bod yn derbyn gofal neu wedi derbyn gofal, yn eu meini prawf gordanysgrifio.[42]

Awgryma'n casgliadau, felly, bod honiad y CES fod eu hysgolion yn gynhwysol ac yn darparu ar gyfer y difantais yng nghymdeithas yn anghywir, yn arbennig o ran plant sydd yn derbyn gofal. Mewn gwirionedd, mae'r mwyafrif llethol ysgolion Catholig a ariennir gan y wladwriaeth yn meddwl gyntaf am ffydd ac yna, yn rhy hwyr, am y difantais. Mae hyn er gwaetha'r ffaith eu bod yn rhydd i osod eu polisïau mynediadau eu hunain ac nad ydynt yn wynebu unrhyw rhwystrau diwinyddol i ddatblygu'n fwy cynhwysol o bob plentyn sydd wedi derbyn gofal, o gefndiroedd Catholig neu beidio.

Mae'r nifer o ysgolion Catholig â meini prawf mynediadau gwahaniaethol yn arbennig o siomedig o dderbyn bod y mwyafrif o Gatholigion ddim yn ffafrio lefelau uchel o ddewis crefyddol ym mynediadau ysgol, neu'n wir ddim o gwbl. Yn ôl arolwg o oedolion Prydeinig yn 2016, roedd 63% o ymatebwyr Catholig yn llwyr wrthwynebus i ddewis ar sail crefyddol.[43] Ar sail hyn, ymddengys yn debygol byddai cyfran hyd yn oed uwch o Gatholigion, yn cynnwys llawer o rheiny sy'n gweld lle i ychydig o ddewis ar sail crefydd, am ei gyfyngu ymhlith y plant mwyaf difantais a bregus mewn cymdeithas.

**39** Ruth Gledhill, 'Growing Number Of Muslim Children Being Sent To Catholic Schools', *Christian Today* (1 December 2016) *https://www.christiantoday.com/article/growing-number-of-muslim-children-being-sent-to-catholic-schools/102616.htm* [gwelwyd 14 Medi 2023].

**40** Archbishop McGrath Catholic High School, 'Christ at the Centre' *https://sites.google.com/view/archbishopmg-catholic-life/christ-at-the-centre* [gwelwyd 29 Mehefin 2023].

**41** Archbishop McGrath High School Admission Policy *https://www.archbishopmg.co.uk/page/?title=Admission+Policy&pid=71* [gwelwyd 29 Mehefin 2023].

**42** Humanists UK, 'Strong majority opposed to plans for school admissions on basis of religion' (2 November 2016) *https://humanism.org.uk/2016/11/02/strong-majority-opposed-to-plans-for-school-admissions-on-basis-of-religion/* [gwelwyd 14 Medi 2023].

## Dim ond 8% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru sy'n gwahaniaethu yn erbyn plant o gefndiroedd sydd ddim yn cydweddu â ffydd yr ysgol.

Dim ond 12 o 143 ysgolion yr Eglwys yng Nghymru sy'n meddu ar bolisïau mynediadau sy'n methu blaenoriaethu holl blant sydd wedi derbyn gofal. Dylid dathlu'r ymroddiad hwn, yn arbennig ar lefel uwchradd lle does dim o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn gweithredu polisi mynediadau gwahaniaethol.

## TORIADAU ANGHYFREITHLON Y CÔD MYNEDIADAU

O'r ysgolion y'u harolygasom, mae 13 ysgol Gatholig a dwy ysgol yr Eglwys yng Nghymru nid yn unig yn gwahaniaethu yn erbyn plant sydd wedi derbyn gofal â'u teuluoedd ddim yn rhannu'r ffydd, ond sydd yn gwneud hynny ar hyn o bryd mewn modd sy'n anghyfreithlon oherwydd ei fod yn torri'r Côd Mynediadau. Cyfeiria rhai o'r polisïau hyn at yr angen i flaenoriaethu plant sydd yn derbyn gofal, ond maent yn rhagnodi bod y fath flaenoriaethu yn cael ei roi o fewn pob un o'r categorïau neu feini prawf eraill y'u gosodir yn y polisi.

Er enghraifft, mae polisi gordanysgrifio 2022-2023 Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant yng Nghwmbrân fel a ganlyn:

1. **Plant sydd wedi eu bedyddio yn  Eglwys Gatholig y Forwyn Mair a Phlwyf Dewi Sant, Cwmbrân.**

2. **Plant eraill sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig.**

3. **Plant o enwadau Cristnogol eraill sydd â rhieni wedi arddangos awydd am addysg Gatholig.**

4. **Plant o draddodiadau Ffydd eraill sydd â rhieni wedi arddangos awydd am addysg Gatholig.**

5. **Gellir cynnig mynediad i blant lle gwneir cais dan amgylchiadau arbennig fel y barno'r Llywodraethwyr. Rhaid ychwanegu llythyr gan y person proffesiynol addas i bob cais. Os gwelwch yn dda, darparwch fanylion llawn ynglŷn â cheisiadau. Bydd y Llywodraethwyr yn trin yr holl wybodaeth yn gyfrinachol. Mae amgylchiadau arbennig yn cynnwys rhesymau meddygol a chymdeithasol..**

6. **Unrhyw blant arall.**

Mae wedyn yn dweud 'Ym mhob un categori uchod…Bydd plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn cael blaenoriaeth uwch.'[44]

---

**44** *St David's Roman Catholic Nursery and Primary School Admissions Policy*, 2022-23, p.1-2 *https://www.stdavidsprimarycwmbran.com/_files/ugd/aaeed3_f694485a35eb49d1a7f0eb6def60507b.pdf* [gwelwyd 31 Awst 2023].

Yma, oherwydd bod plant sydd wedi derbyn gofal yn cael blaenoriaeth 'ym mhob un categori' yn hytrach nag yn hollgynhwysfawr, gall plant nad sydd erioed wedi derbyn gofal a'u teuluoedd ddim yn rhannu ffydd Gatholig yr ysgol (e.e. y rheiny o enwadau Cristnogol eraill neu draddodiadau ffydd eraill) gael blaenoriaeth uwch pan fod ysgol wedi derbyn gordanysgrifiad na phlant sydd wedi derbyn gofal o gefndiroedd digrefydd. Gall plant o gefndiroedd Cristnogol sydd heb dderbyn gofal gael blaenoriaeth dros blant o gefndiroedd ffydd eraill sydd wedi derbyn gofal. Mae hyn yn tramgwyddo'r Côd Mynediadau yn uniongyrchol sy'n datgan yn eglur:

> **'2.32 Gall awdurdodau mynediad ysgolion sy'n meddu ar gymeriad crefyddol dynodedig rhoi blaenoriaeth cyntaf i holl blant sydd yn derbyn gofal neu i blant sydd wedi derbyn gofal, pa un o'r ffydd neu beidio ond rhaid rhoi blaenoriaeth cyntaf i blant sydd yn derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal o'r ffydd uchod ac unrhyw blant arall o'u ffydd. Os rhoddant flaenoriaeth cyntaf i blant o'r ffydd sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal, yna rhaid iddynt rhoi blaenoriaeth uwch i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal nad sydd o'r ffydd na phlant eraill nad sydd o'r ffydd yna.'**[45]

Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Winefride, Treffynnon ac Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Yr Wyddgrug, y ddwy yn Sir Fflint, yn gwneud camgymeriad gwahanol. Yn eu polisïau 'Blaenoriaethir plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar amser tebygol mynediad' dros blant sy'n derbyn gofal nad sydd wedi eu bedyddio.[46] Er y gall fod yn rhesymol i dderbyn, oherwydd eu cefndir ar y cyd â'i gilydd, bod siblingiaid yn aelodau o'r un ffydd, dydy hyn ddim o angenrheidrwydd yn wir (e.e. mewn teuluoedd cymysg). Oherwydd hyn, mae'r polisïau hyn yn peryglu blaenoriaethu plant sydd heb dderbyn gofal o gefndiroedd ffydd nad sy'n cydweddu â ffydd yr ysgol dros rai plant sydd wedi derbyn gofal ac sydd yn anghyfreithiol.

Mae polisi gordanysgrifio Ysgol San Siôr, ysgol yr Eglwys yng Nghymru yng Nghonwy, yn torri'r rhan hwn o'r Côd Mynediadau mewn modd sydd ychydig yn wahanol. Mae ei dri maen prawf gordanysgrifio cyntaf fel a ganlyn:

1. **Plant sydd 'wedi derbyn gofal' ac wedi eu bedyddio yn yr Eglwys yng Nghymru, neu Eglwys Anglicanaidd arall.**

2. **Plant sydd 'wedi derbyn gofal' naill ai gan enwadau Cristnogol eraill sy'n aelodau o CYTUN neu o grŵp ffydd arall.**

3. **Plant eraill sydd 'wedi derbyn gofal'.**[47]

---

**45** Llywodraeth Cymru, *Côd mynediadau ysgol* (Gorffennaf 2013) tud.13.

**46** Cyngor Sir Fflint , *Guide to Education Services* (2023), tud. 51 *https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Admissions/Guide-to-Education-Services-2023.pdf* [gwelwyd 20 Medi 2023].

**47** Polisi mynediad Ysgol San Siôr yng Nghonwy *https://www.sansior.wales/our-policies* [gwelwyd 6 Mehefin 2023].

Unwaith eto, er bod y polisi yn blaenoriaethu plant mewn gofal, mae nid yn unig yn rhoi blaenoriaeth yn rhannol i blant sydd â phrofiad o ofal a'u teuluoedd yn rhannu ffydd yr ysgol ond hefyd rheiny o gefndiroedd ffydd eraill dros rheiny sydd â'u teuluoedd yn ddigrefydd. Ni chaniateir y driniaeth hon dan y Côd.

## ANFFAFRIAETH LAWN YN ERBYN ANFFAFRIAETH RANNOL

Mae'r rhifau uchod yn cyfeirio at y cyfran o ysgolion ffydd sy'n methu blaenoriaethu pob plentyn yn eu mynediadau sydd â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, mae `na ffyrdd gwahanol sut gall hyn gael ei weithredu, gyda rhai yn fwy anffafriol nag eraill. I gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y gall plant sydd â phrofiad o ofal eu hwynebu wrth geisio am le mewn ysgol yng Nghymru, wedi inni ddadansoddi'r data yn ymwneud ag unrhyw fath o anffafriaeth, gwahaniaethom rhwng anffafriaeth lawn ac anffafriaeth rannol. Ysgolion y'u disgrifir yn anffafriol llawn yw rheiny sydd â pholisïau sy'n blaenoriaethu pob plentyn yn awtomatig o gefndiroedd sy'n cydweddu â ffydd yr ysgol dros blant sydd â phrofiad o ofal o gefndiroedd nad sydd yn cydweddu â'r ffydd. Ysgolion y'u disgrifir yn rhannol anffafriol yw rheiny sy'n meddu ar bolisïau sydd ond yn blaenoriaethu plant sydd â phrofiad o ofal ac sydd o gefndiroedd sy'n cydweddu â'r ffydd dros blant o gefndiroedd nad sydd yn cydweddu â'r ffydd sydd â phrofiad o ofal.

Yma, dysgasom bod:

**Pob ysgol:**

| Math o ysgol ffydd | % yn anffafrio yn rhannol o ran mynediadau | % yn anffafrio yn llawn o ran mynediadau |
|---|---|---|
| **Catholig** | 31% | 43% |
| **Eglwys yng Nghymru** | 7% | 1% |
| **Catholig ac Anglicanaidd Cymysg** | 0% | 0% |

**Ysgolion cynradd:**

| Math o ysgol ffydd | % yn anffafrio yn rhannol o ran mynediadau | % yn anffafrio yn llawn o ran mynediadau |
|---|---|---|
| **Catholig** | 33% | 50% |
| **Eglwys yng Nghymru** | 7% | 1% |

Ysgolion uwchradd:

| Math o ysgol ffydd | % yn anffafrio yn rhannol o ran mynediadau | % yn anffafrio yn llawn o ran mynediadau |
|---|---|---|
| Catholig | 25% | 13% |
| Eglwys yng Nghymru | 0% | 0% |
| Catholig ac Anglicanaidd Cymysg | 0% | 0% |

**43%** **MAE 43% O OLL YSGOLION CATHOLIG YN GWAHANIAETHU YN Y MODD HWN, O GYMHARU GYDAG OND 1% O YSGOLION YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

**50%** **MAE 50% O YSGOLION CYNRADD YN MEDDU AR BOLISÏAU MYNEDIADAU SY'N GWAHANIAETHU'N LLAWN YN ERBYN PLANT SYDD WEDI DERBYN GOFAL AC SYDD DDIM YN GWEDDU WRTH FFYDD YR YSGOL**

Mae hanner ysgolion cynradd Catholig (43% o holl ysgolion Catholig) yn meddu ar bolisïau anffafriol llawn sy'n blaenoriaethu holl blant bedyddiedig heb ystyried pa un ai ydynt â phrofiad o ofal ai ddim. O gymharu, dim ond 1% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru (2 ysgol gynradd) sy'n meddu ar y math hwn o bolisi gordanysgrifio.

Mae'r 31% o ysgolion Catholig a'r 7% o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru sy'n gweithredu polisïau rhannol anffafriol (h.y. rheiny sydd ond yn blaenoriaethu plant o gefndiroedd crefyddol sy'n cydweddu â ffydd yr ysgol ac sydd â phrofiad o ofal dros blant eraill sydd â phrofiad o ofal) yn amlwg yn trin plant bregus yn decach na rheiny sy'n meddu ar bolisïau anffafriol llawn. Yn wir, gan ei fod yn annhebygol iawn y cyfyd sefyllfaoedd gwahaniaethol rhwng plant sydd â phrofiad o ofal, yn ymarferol, byddant fel arfer mewn sefyllfa lle gallant rhoi mynediad i'r holl fath blant beth bynnag yw eu cefndir. Serch hynny, o dderbyn mai'r rhesymeg dros flaenoriaethu plant sydd â phrofiad o ofal yw i gymryd o ddifri yr anfanteision y maent yn eu hwynebu yn arbennig o ran sicrhau addysg ddigonol, mae'n anaddas i gyflwyno hierarchaeth ymhlith y fath ddisgyblion. Tra bod hyn yn anad dim yn symbolaidd, mae'r arfer hwn yn anfon neges barhaol bod rheiny sydd â chefndir crefyddol arbennig, ar ryw ystyr, yn fwy haeddiannol o le mewn ysgol. O dderbyn y byddai canlyniad newid y fath bolisi yn fychan, ni allwn weld

pam y gallai unrhyw un o'r ysgolion sydd ar hyn o bryd yn gweithredu'r arferiad hwn wrthwynebu ei newid er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd â phrofiad o ofal yn cael ystyriaeth gydraddol benodedig

## GOBLYGIADAU MYNEDIAD PLANT SYDD WEDI DERBYN GOFAL

Un o'r prif resymau fod canlyniadau'r ymchwil hwn yn un i'w ofidio amdano yw'r effaith y mae polisïau anffafriol mynediadau yn ei gael ar allu plant bregus i sicrhau lle da mewn ysgol o safon uchel. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod safon ysgol (sydd yn aml ynghlwm yn agos wrth berfformiad academaidd) yn benderfynydd allweddol yn newis rhieni.[48] Er enghraifft, yn Lloegr, pan y'u cyfrifir fel 'da' neu 'rhagorol' gan Ofsted, mae ysgolion yn llawer mwy tebygol o gael eu gordanysgrifio, i'w caniatáu i fod yn fwy detholus,[49] nag ysgolion sydd â chyfraddiadau is. Er nad yw'r arolygiaeth ysgolion Cymreig, Estyn, bellach yn cynnwys graddfeydd cyfansymiol (e.e. 'Rhagorol', 'Da' neu 'Digonol'),[50] mae rhieni a gofalwyr yn dal yn fwy tebygol o ddewis ysgolion sydd ag adroddiadau cadarnhaol a chanlyniadau arholiad da. Mae hyn o bwys oherwydd bod y polisïau edrychasom arnynt ond yn berthnasol lle mae mwy o ymgeiswyr nag o leoedd ar gael yn yr ysgol.

Er nad oes adroddiadau cyfatebol yng Nghymru, mae Adroddiad Blynyddol yr Office of the Schools Adjudicator (OSA) Seisnig 2022 yn ailadrodd pryder (y'i amlygwyd yn gynharach mewn adroddiadau o 2019, 2020 a 2021), 'lle mae ysgolion â chymeriad crefyddol yn rhoi'r blaenoriaeth uchaf yn unig i blant sydd wedi derbyn gofal ac sydd o'u ffydd eu hunain (fel a ganiateir), mae'n debyg na fydd plant mewn gofal nad sydd o'r ffydd hwnnw yn derbyn lleoedd.' Aiff ymlaen i ddweud, 'lle mae llawer o'r fath ysgolion a gyda'i gilydd maent yn cynrychioli'r mwyafrif o'r ysgolion da neu rhagorol mewn ardal, gall hyn gyfyngu'r gallu i blant mewn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal gael mynediad i ysgol dda neu rhagorol.'[51]

## CASGLIAD

Yn y bôn, mae'r casgliadau hyn yn dangos bod cyfran brawychus o ysgolion ffydd uwchradd yng Nghymru yn methu ystyried anghenion rhai o'r plant mwyaf bregus mewn cymdeithas. O'r ysgolion hyn, ysgolion Catholig o bell ffordd yw'r mwyaf anffafriol, gyda pheth anffafriaeth yn digwydd mewn ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'r ddau grŵp yn gweinyddu ysgolion â pholisïau gordanysgrifio sy'n wir dorri'r Côd mynediadau ysgol.

**47** Simon Burgess, Ellen Greaves, Anna Vignoles and Deborah Wilson, 'What Parents Want: School Preferences and School Choice' (2015) *The Economic Journal*, Volume 125, Issue 587, September 2015, p. 1262-1289.

**48** Rebecca Allen and Meenakshi Parameshwaran, *Research brief: Caught out*, The Sutton Trust (14 April 2016) p.3 *https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2019/12/Caught-Out_Research-brief_April-16-1.pdf* [gwelwyd 3 Gorffennaf 2023].

**49** Estyn, 'Inspection explained' (15 December 2022) *https://www.estyn.gov.wales/inspection-process/inspection-explained* [gwelwyd 3 Gorffennaf 2023].

**50** Office of the Schools Adjudicator , *Annual Report 1 January 2022 to 31 December 2022* (April 2023) *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1150996/Office_of_the_Schools_Adjudicator_annual_report_Jan_to_Dec_2022.pdf* [gwelwyd 3 Gorffennaf 2023].

Mae'r Gwasanaeth Addysg Gatholig yn honni bod 'addysg Eglwysig yn gosod dyletswydd ar ysgolion Catholig i ofalu am y tlawd ac addysgu rheiny sydd dan anfantais yn gymdeithasol, yn academaidd, yn gorfforol neu yn emosiynol.'[52] Ar y sail hon, mae'r ffaith nad yw'r mwyafrif o ysgolion Catholig Cymreig yn rhoi blaenoriaeth i'r holl blant sydd â phrofiad o ofal yn warthus tu hwnt. Os yw addysgu Eglwysig yn galw ar yr ysgolion hyn i ofalu am y difantais, yna mae'r mwyafrif o ysgolion Catholig yn methu.

O siarad yn gyfreithiol, mae ysgolion ffydd yn rhydd i ddewis pa un ai agor eu drysau neu beidio i'r mwyaf difreintiedig ac mae llawer wedi dewis bod yn hynod gynhwysol yn hyn o beth. Fodd bynnag, fel mae'r adroddiad hwn yn amlygu, mae eraill heb wneud hynny, gan beryglu cyfleoedd addysgol a datblygiad rhai o'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Gan osod yr achos moesol i'r naill ochr, dydy barn gyhoeddus ddim yn rhoi llawer o gefnogaeth i'r polisïau anffafriaeth i barhau. Yn ôl arolwg barn gan YouGov ar ran Dyneiddwyr y DU yn 2020,[53] dim ond 27% o rieni Prydeinig â phlant oedran ysgol (rheiny sy'n 5-16) gefnogodd y gosodiad y dylai ysgolion ffydd a ariannir yn wladol allu blaenoriaethu mynediad i blant o gefndiroedd ffydd yn hytrach na phlant sydd wedi derbyn gofal o gefndiroedd nad sydd yn cydweddu â ffydd yr ysgol. Yn wir, roedd 45% o bobl crefyddol – y mwyafrif o'r rhai a arolygwyd – o'r farn na ddylai ysgolion feddu ar y gallu hwn, gyda 17% ychwanegol yn dweud eu bod yn ansicr. Cododd y nifer yn cefnogi mynediadau anffafriol i 45% ymhlith Catholigion. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu bod cyfran sylweddol o rheiny sy'n uniaethu â Phabyddiaeth yn gwrthwynebu'r fath bolisïau. Ymhellach, daeth adroddiad yn 2020 gan y Sutton Trust i'r casgliad bod 80% o rieni yn credu dylai ysgolion gwladol roi mynediad i ystod eang o blant o wahanol gefndiroedd,[54] yn awgrymu cefnogaeth gyfyngedig ymhlith rhieni i fynediadau detholus yn fwy cyffredinol.

Mae'r gyfraith sy'n rhoi hawl i ysgolion ffydd benderfynu pa un ai rhoi blaenoriaeth neu beidio i bob plentyn sydd wedi derbyn gofal dros blant llai difantais sy'n digwydd dod o gefndir ffydd yn un y dylai Llywodraeth Cymru ei ddileu cyn gynted â phosib. Mae angen gwneud hyn ar fyrder o weld yr ymrwymiad i hawliau plant wedi eu gosod ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[55] a ailddatganwyd yn ddiweddar yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cyflwynodd hwn ddyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r fath hawliau fel y'u cofnodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.[56]

---

**52** Catholic Education Service, 'Catholic Education FAQs' (2020) *http://www.catholiceducation.org.uk/about-us/faqs* [gwelwyd 14 Medi 2023].

**53** Sampl o 2,077 o oedolion Prydeinig wedi ei gymryd ar 23-24 Tachwedd 2020.

**54** Carl Cullinane, Fairer School Admissions: Social segregation in schools: the view from parents & teachers, The Sutton Trust (February 2020) *https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2020/02/Fairer-School-Admissions-Polling.pdf* [gwelwyd 3 Gorffennaf 2023].

**55** Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 *https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents* [gwelwyd 3 Gorffennaf 2023].

**56** Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 *https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/4/enacted* [gwelwyd 3 Gorffennaf 2023].

Tan i'r newidiadau gofynnol ddigwydd, mae angen i'r grwpiau ffydd eu hunain wneud mwy i gydweddu realiti i'w rhethreg. Mae'n ofynnol yn arbennig ar ysgolion Catholig i newid eu polisïau mynediadau.

## NODIAD AR Y TERMINOLEG A DDEFNYDDIWYD YN YR ADRODDIAD HWN

Rydym yn defnyddio'r term 'plant â phrofiad o ofal' i gyfeirio at 'blant sy'n derbyn gofal' a 'phlant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol'.

Diffinnir y term 'plentyn sy'n derbyn gofal' gan Y Cod Derbyn i Ysgolion a deddfwriaethau berthnasol fel un sy'n cyfeirio at 'blentyn sy'n derbyn gofal gan ALl yng Nghymru neu yn Lloegr yn unol â Deddf Plant 1989 ac y mae'r ALl wedi cadarnhau y bydd yn derbyn gofal pan fydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol.'[57]

Mae'r term 'plant a oedd yn arfer derbyn gofal' yn cyfeirio at 'blant a oedd yn derbyn gofal, ond a beidiodd â derbyn gofal am iddynt gael eu mabwysiadu neu ddod yn destun gorchymyn preswylio, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.'[58]

Iaith fwy anffurfiol a gellir ei ddefnyddio i gyfeirio at blant fel hyn yw 'plant mewn gofal', 'plant maeth', 'plant mabwysiedig', ac, ar gyfer oedolion ifanc sy'n symud allan o'r system ofal, 'ymadawyr gofal'. Yn ôl yr NSPCC, mae well gan lawer o blant a phobl ifanc y term 'plant mewn gofal'.[59] Fodd bynnag, mae Plant yng Nghymru (y corff ymbarél ar gyfer hawliau plant),[60] a Chomisiynydd Plant Cymru[61] yn defnyddio'r term 'plant â phrofiad o ofal'. Am y rheswm hwnnw, rydym yn defnyddio'r term 'plant â phrofiad o ofal' fwyaf aml yn yr adroddiad. Rydym hefyd yn defnyddio'r term 'plant â phrofiad o fod mewn gofal', sef y term a ddefnyddir gan  Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru[62], ble mae hyn yn helpu i egluro ein hystyr.

**57** Llywodraeth Cymru, Y cod derbyn i ysgolion (Gorffennaf 2013) tud.13 *https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-derbyn-i-ysgolion.pdf* [gwelwyd 25 Mai 2023]. Mae'r diffiniadau hyn yn seiliedig ar adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989, adran 12 o Ddeddf Mabwysiadu 1976, ac adran 46 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

**58** Ibid.

**59** NSPCC, 'Looked after children' *https://learning.nspcc.org.uk/children-and-families-at-risk/looked-after-children* [gwelwyd 25 Mai 2023].

**60** Gwelwch e.e. Plant yng Nghymru, 'Plant sydd â phrofiad o ofal' (2023) *https://www.childreninwales.org.uk/cy/gweithwyr_profesiynol/ein_gwaith/plant_sydd_a_phrofiad_o_ofal/* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].

**61** Gwelwch e.e. Children's Commissioner for Wales, The Right Way: A Children's Rights Approach for Social Care in Wales (2021) *https://www.childcomwales.org.uk/wpcontent/uploads/2021/04/RightWaySocialCare_Final-Amendments.pdf* [gwelwyd 5 Mehefin 2023].

**62** Gwelwch e.e. Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru, Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: Sut y gall Cymru wneud yn well (Tachwedd 2023) tud. 31 *https://senedd.cymru/media/mhafeoxg/cr-ld16118-w.pdf* [gwelwyd 12 Tachwedd 2024].

# ATODIAD 1:

Canran o ysgolion ffydd sy'n gwahaniaethu yn erbyn plant sydd wedi derbyn gofal fesul rhanbarth

| Rhanbarth | % sy'n gwahaniaethu'n rhannol | % sy'n gwahaniaethu'n llawn | % sy'n gwahaniaethu cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 50% | 25% | 75% |
| Penybont | 0% | 67% | 67% |
| Caerffili | 100% | 0% | 100% |
| Cardiff | 4% | 32% | 36% |
| Sir Caerfyrddin | 36% | 9% | 45% |
| Ceredigion | 33% | 0% | 33% |
| Conwy | 13% | 7% | 20% |
| Sir Dinbych | 9% | 0% | 9% |
| Sir y Fflint | 20% | 27% | 47% |
| Gwynedd | 0% | 18% | 18% |
| Ynys Môn | 0% | 0% | 0% |
| Merthyr Tudful | 0% | 0% | 0% |
| Sir Fynwy | 0% | 13% | 13% |
| Castell Nedd Port Talbot | 67% | 0% | 67% |
| Casnewydd | 0% | 78% | 78% |
| Sir Benfro | 22% | 0% | 22% |
| Powys | 9% | 0% | 9% |
| Rhondda Cynon Taf | 38% | 25% | 63% |
| Abertawe | 33% | 0% | 33% |
| Torfaen | 29% | 29% | 57% |
| Bro Morgannwg | 0% | 15% | 15% |
| Wrecsam | 19% | 0% | 19% |

# ATODIAD 2:

Data llawn – ysgolion cynradd

| Math o ysgol ffydd | Cyfanswm cynradd | Nifer sy'n gwahaniaethu'n rhannol yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | % sy'n gwahaniaethu'n rhannol yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Nifer sy'n gwahaniaethu'n llawn yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | % sy'n gwahaniaethu'n llawn yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Cyfanswm nifer sy'n gwahaniaethu | Cyfanswm % sy'n gwahaniaethu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eglwys yng Nghymru** | 139 | 10 | 7% | 2 | 1% | 12 | 9% |
| **Catholig** | 64 | 21 | 33% | 32 | 50% | 53 | 83% |
| **Catholig ac Anglicanaidd** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | N/A | N/A |
| **Cyfanswm** | **202** | **31** | **15%** | **34** | **17%** | **65** | **32%** |

# ATODIAD 3:

Data llawn– ysgolion uwchradd[63]

| Math o ysgol ffydd | Cyfanswm nifer uwchradd | Nifer sy'n gwahaniaethu'n rhannol yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | % sy'n gwahaniaethu'n rhannol yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Nifer sy'n gwahaniaethu'n llawn yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | % sy'n gwahaniaethu'n llawn yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Cyfanswm nifer sy'n gwahaniaethu | Cyfanswm % sy'n gwahaniaethu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eglwys yng Nghymru** | 4 | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Catholig** | 16 | 4 | 25% | 2 | 13% | 6 | 38% |
| **Catholig ac Anglicanaidd** | 1 | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **21** | **4** | **19%** | **2** | **10%** | **6** | **29%** |

**63** Yn cynnwys ysgolion canol.

# ATODIAD 4:

Data llawn– holl ysgolion

| Math o ysgol ffydd | Cyfanswm rhif | Nifer sy'n gwahaniaethu'n rhannol yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | % sy'n gwahaniaethu'n rhannol yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Nifer sy'n gwahaniaethu'n llawn yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | % sy'n gwahaniaethu'n llawn yn erbyn plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Cyfanswm nifer sy'n gwahaniaethu | Cyfanswm % sy'n gwahaniaethu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eglwys yng Nghymru** | 143 | 10 | 7% | 2 | 1% | 12 | 8% |
| **Catholig** | 80 | 25 | 31% | 34 | 43% | 59 | 74% |
| **Catholig ac Anglicanaidd** | 1 | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **224** | **35** | **16%** | **36** | **16%** | **71** | **32%** |

Wales Humanists
Dyneiddwyr Cymru

Wales Humanists is part of Humanists UK

Humanists UK is the operating name of the British Humanist Association, a registered charity (no. 285987) and a company limited by guarantee registered in England and Wales (no. 228781).

Registered address 39 Moreland Street, London, EC1V 8BB.